# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Fedi 2016 am 7pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan Hugh Jones, Bethan Lawton, Ieu Thomas, Arwel Pierce,

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Peter Parker, Simon Jones

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Derbyn cofnodion 18 Gorffennaf 2016

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dŵr Cymru | Dŵr i'r Pafiliwn | 101506 | £80.65 |
| Cyngor Tref Tywyn | Argraffu | 101507 | £15.00 |
| M&E Evans | PAYE | 101508 | £90.00 |
| B Lawton | Offer chwarae | 101514 | £100.70 |
| Y Ganolfan | Llogi ystafell | 101510 | £24.00 |
| Jones & Jones | Pentref | 101513 | £81.00 |
| A.H. Jones | Trydan i'r Pafiliwn | 101511 | £60.00 |
| B Gwilym | Costau swyddfa | 101512 | £84.10 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r uchod.

5. Adolygu a mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

   Nid oedd y ddogfen yn barod i'w gymeradwyo.

   **PENDERFYNIAD:** i ail-gyflwyno'r ddogfen ym mis Hydref ar ôl gwneud newidiadau.

6. Cau cangen HSBC yn Nhywyn:

   Derbyniwyd llythyr gan HSBC. Adroddwyd bod HSBC yn gosod peiriant ATM yn Siop Spar. Nodwyd y byddai cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid HSBC fedru talu i mewn yn y Swyddfa Bost yn cryfhau'r gangen.

   **PENDERFYNIAD:** i ddernyn y wybodaeth.

7. Canlyniadau holiaduron:

   Dylid codi'r bresept £2,000 (£6.04 pob annedd) ym Mryncrug er mwyn cadw'r toiled cyhoeddus ar agor?
   Dylid codi'r bresept oddeutu £4,000 (£12.08 pob annedd) er mwyn cynnal a chadw y Pentref?
   Dylid codi'r bresept £1,000 (£3.02 pob annedd) er mwyn cynnal noson Tân Gwyllt?

   **PENDERFYNIAD:**
   I gyfrannu £2,000 i Gyngor Gwynedd er mwyn cadw'r toiled cyhoeddus ar agor yn ystod 2017/18, gyda amod bod Cyngor Gwynedd yn gwella'r toiled drwy godi'r safon, lle golchi dwylo, paentio, goleuadau sy'n gweithio'n effeithiol.
   I dderbyn y wybodaeth.
   I beidio cynnal noson tân gwyllt. I anfon llythyr at Pwyllgor y Ganolfan yn ateb eu llythyr.
   I roi canlyniadau'r holiaduron ar yr hysbysfwrdd yn y Pentref.

8. Hyfforddiant Un Llais Cymru:

   **PENDERFYNIAD:** I ddernyn y wybodaeth.

9. Parc Cenedlaethol Eryri – Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri – Galw am Ddarpar Safleoedd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth. I roi'r poster ar yr hysbysfwrdd yn y Pentref.

10. Parc Cenedlaethol Eryri – Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri – Asesiad o Fannau Agored:

Derbyniwyd lythyr gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnwys map yn dangos mannau agored ym Mryncrug, gyda holiadur yn gofyn pwy sy'n berchen ar y safleoedd, y defnydd a wneir o'r safleoedd, yw'r safleoedd yn addas ar gyfer pob grŵp oedran, yw'r safleoedd yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda ....

**PENDERFYNIAD:** I ddychwelyd yr holiaduron wedi'u cwblhau i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

11. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd bod polyn ar gyfer y siglen wedi cyrraedd, 'roedd angen ei adnewyddu gan bod polyn wedi pydru. Nodwyd bod tap yn y Pafiliwn yn rhedeg ychydig.

**PENDERFYNIAD:**
I brynu cadwyni newydd i'r siglen.
I glymu'r bwrdd picnic newydd i'r llawr.
I dorri'r Eiddew ger y giât mochyn.
Gofyn am ail gopi o'r adroddiad gan ROSPA.
Rhoi rhestr o bethau sydd angen eu gwneud i Jones & Jones.
I anfon gwahoddiad i'r Clwb Pêl-droed fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn trafod yr arian sy'n ddyledus a materion eraill megis y polyn diogelwch.

**12.** Adroddiad y Cynghorydd Sir**:**

- Rhoddwyd adroddiad ar gyfarfod y Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth.
- Nodwyd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cychwyn rhaglen o waith ar y ffos fawr, a bod peiriant ar fin cyrraedd.
- Nodwyd pryder am ddiffyg gofalwyr, gan bod diffyg gofalwyr yn golygu nad oedd yn bosib ar bob achlysur i rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n amserol.
- Adroddwyd y byddai Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Iechyd yn cydweithio'n agosach yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Priffyrdd – Rhaglen Waith mis Awst 2016:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Priffyrdd – Rhaglen Waith mis Medi 2016:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod unigolion mewn cadeiriau olwyn yn cael trafferth symud o gwmpas y pentref oherwydd nad yw'n bosib mynd o'r palmant i'r ffordd oherwydd uchder y palmant.

Trafodwyd cwynion ynglŷn â dŵr o'r Groesffordd/Maes y Grug yn rhedeg yn uchel gan nad yw pibellau yn medri ymdopi gyda dŵr o doeau.

Trafodwyd erthygl diweddar yn y Cambrian News, gobeithiwyd bod y mater wedi gorffen.

**PENDERFYNIAD:**
Ysgrifennu at Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gofyn iddynt gynnal archwiliad o balmentydd y Pentref.
Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn i'r Cyngor wneud archwiliad o'r pibellau dŵr.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:35pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................